Y Comisiwn Etholiadol

Isetholiadau Senedd y DU

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 2b o 6 - Sefyll fel ymgeisydd plaid

Medi 2016 (diweddarwyd Tachwedd 2018)

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i isetholiadau Senedd y DU ym Mhrydain Fawr. Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU i'w cael ar ein gwefan: www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents..

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 2

..... 2

Cwblhau eich papurau enwebu 2

Y ffurflen enwebu 4

Ffurflen cyfeiriad cartref 6

Cydsynio i enwebu 6

Tystysgrif awdurdodiad 6

Cais i ddefnyddio arwyddlun ar y papur pleidleisio 7

Cyflwyno eich papurau enwebu 8

Pwy all ddanfon y papurau enwebu? 8

Sut dylid cyflwyno'r papurau enwebu? 9

Pryd dylid cyflwyno'r papurau enwebu? 9

Yr ernes 10

Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill 11

Tynnu yn ôl 13

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau? 13

Penodi eich asiantiaid etholiadol ac asiantiaid eraill 14

Pwy all fod yn asiant etholiadol? 14

Penodi asiant etholiadol 15

Is-asiantiaid 16

Penodi asiantiaid pleidleisio post, pleidleisio a'r cyfrif 17

Ymgeisydd yn marw 19

Gwybodaeth atodol 20

Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin 20

Llofnodion tanysgrifwyr 21

Ymgeisydd yn marw 23

Ymgeisydd annibynnol yn marw 23

Ymgeisydd plaid yn marw 23

Etholiad newydd 24

2

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar sefyll fel ymgeisydd plaid yn isetholiad cyffredinol Senedd y DU ym Mhrydain Fawr. Mae gwybodaeth atodol, fydd yn berthnasol i rai ymgeiswyr yn unig, ar gefn y ddogfen hon. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni o fewn y ddogfen hon, neu drwy glicio ar y bennod yn y dudalen gynnwys.

We are here to help, so please contact your local Commission team if you have any questions. See our Overview document for contact details.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylech/dylid' ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol neu rheoleiddiol.

Rydym wedi cynnwys dyddiadau cau generig drwy gydol y ddogfen, ond gallwch ddod o hyd i amserlen etholiadol ar ein gwefan sy'n dangos yr holl ddyddiadau allweddol. Fodd bynnag dyulech allu cael copi o'r amserlen penodol ar gyfer yr isetholiad gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Cwblhau eich papurau enwebu

1.1 I gael eich enwebu fel ymgeisydd mewn isetholiad Senedd y DU ym Mhrydain Fawr mae'n rhaid i chi gyflwyno set gyfan o bapurau enwebu i'r man a bennir ac erbyn y dyddiad ac amser cau a nodir ar yr hysbysiad o etholiad. Bydd y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau am 4pm ar ddiwrnod a bennir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Yn gyfrithiol

ni fydd cyn y trydydd diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad ac ni fydd yn hwyrach na'r seithfed diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y derbynnir y gwrit. Ni ellir newid y dyddiad a ddewisir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am unrhyw reswm.

1.2 Bydd y dyddiad cyntaf y byddwch yn gallu cyflwyno papurau enwebu hefyd yn cael eu gosod yn yr hysbysiad swyddogol o etholiad a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Bydd yr hysbysiad o etholiad yn cael ei gyhoeddi erbyn 4pm ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl i'r gwrit gael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

1.3 Mae tri phapur enwebu sy'n rhaid i chi eu cyflwyno i wneud eich enwebiad yn un dilys:

- y ffurflen enwebu (mae'r ffurflen i'w defnyddio wedi'i rhagnodi'n gyfreithiol)
- ffurflen cyfeiriad cartref
- eich cydsyniad i enwebu

1.4 I sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, bydd hefyd angen:

- Tystysgrif yn eich awdurdodi i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio (a elwir yn dystysgrif awdurdodi). I gael mwy o wybodaeth ar y dystysgrif awdurdodi, gweler paragraff **1.16**.
- Cais ysgrifenedig i ddefnyddio un o arwyddluniau'r blaid (os hoffech un ar y papur pleidleisio). I gael mwy o wybodaeth ar y ffurflen cais arwyddlun gweler paragraff **1.22**.

1.5 Gallwch gael papurau enwebu o'ch swyddfa etholiadol lleol. Yng Nghymru a Lloegr, mae manylion cyswllt ar gael yn www.fymhleidlais.co.uk. Yn yr Alban, gallwch gysylltu â'ch swyddfa etholiadol trwy eich cyngor lleol. Ar y llaw arall, mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu set o bapurau enwebu y gallech eu defnyddio.

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

1.6 Os na allwch chi, eich asiant neu rywun arall yr ydych yn ymddiried ynddynt gwblhau'r ffurflen enwebu, gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) helpu drwy baratoi'r ffurflen ar gyfer eich llofnod.

1.7 Efallai y bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd yn gallu cynnig gwirio'ch papurau enwebu yn anffurfiol

cyn i chi eu cyflwyno. Gallwch ddarganfod mwy gan eich Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) p'un a eu bod yn bwriadu cynnig gwiriadau anffurfiol.

1.8 Nodwch fod yn rhaid i unrhyw wybodaeth a ddarperir ar eich papur enwebu fod yn wir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae'n drosedd darparu datganiad ffug ar eich papurau enwebu. Gallai darparu datganiad ffug annilysu eich ethol, a gellid hefyd cael dirwy a/neu garchar. Yng Nghymru a Lloegr mae'r ddirwy yn ddi-derfyn; yn yr Alban, mae'r ddirwy yn £10,000 neu'n ddi-derfyn os ceir yn euog ar dditiad.

Y ffurflen enwebu

1.9 Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ffurflen enwebu gael ei gwblhau'n Saesneg, neu yn Gymraeg neu'n Saesneg yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- Eich enw llawn. Mae hyn yn golygu eich cyfenw ac enwau eraill yn llawn. Gallai defnyddio blaenlythrennau yn unig arwain i'ch papur yn cael ei wrthod. Hefyd, peidiwch â defnyddio rhagddodiaid megis Mr, Mrs, Dr na Cyngh fel rhan o'ch enw. Mae'r un peth yn berthnasol i ôl-ddodiaid. Fodd bynnag, os oes gennych deitl, gallwch ddefnyddio hwn fel eich enw llawn. Er enghraifft, os mai eu henw yw Joseph Smith ond mai eu teitl etifeddol yw Joseph Avon, yna gallant ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel eu henw llawn.

I ddarganfod sut i gael y gofrestr etholiadol gweler: Rhan 4 - Yr ymgyrch

- Llofnodion 10 etholwr cofrestredig (a elwir yn danysgrifwyr) o'r etholaeth. Mae'n rhaid i'ch tanysgrifwyr ymddangos ar y gofrestr etholiadol Seneddol sy'n weithredol 22 diwrnod gwaith cyn y bleidlais (h.y. ar y gofrestr a gyhoeddir ar 1 Ebrill 2015). I gael mwy o wybodaeth, gweler paragraff **1.94**.

Dylid ysgrifennu eich enw a'ch disgrifiad ar y ffurflen enwebu cyn i chi ofyn i'ch tanysgrifwyr lofnodi'r ffurflen.

1.10 Mae'r canlynol yn ddewisol:

- Enw a ddefnyddir yn gyffredin - os ydych yn defnyddio enw cyffredin sy'n wahanol i'ch enw iawn, a'ch bod am i hwn i ymddangos ar eich papur pleidleisio, mae'n rhaid i

chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Mae mwy o wybodaeth ar gael ym mharagraff **1.87**.

- Disgrifiad - Gallwch ofyn i gael un ai enw'r blaid fel y mae wedi cofrestru gyda'r Comisiwn neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid i ymddangos ar y papur pleidleisio o dan eich enw. Os ydych yn ymgeisydd yng Nghymru gallwch un ai ddefnyddio'r fersiwn Cymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddau o enw'r blaid neu'r disgrifiad, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru gyda ni.

  Os ydych am ddefnyddio enw neu ddisgrifiad plaid, mae'n rhaid i chi gyflwyno, ynghyd â'ch papurau enwebu eraill, dystysgrif sy'n dangos fod gennych awdurdodiad i ddefnyddio enw neu ddisgrifiad y blaid (a elwir yn dystysgrif awdurdodiad). Mae'n rhaid i'r dystysgrif gael ei roi gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid (neu rywun sydd wedi awdurdodi i weithredu ar eu rhan), a chael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn y dyddiad cau enwebu, h.y. erbyn 4pm 19 diwrnod gwaith cyn y bleidlais (erbyn 4pm ar 9 Ebrill 2015). Mae mwy o wybodaeth ar y dystysgrif i'w gael ym mharagraff **1.16**.

  Os ydych yn sefyll ar ran dwy neu fwy o bleidiau, gallwch ddefnyddio disgrifiad ar y cyd fel sydd wedi cofrestru gyda'r Comisiwn. Yn yr achos hwnnw, bydd angen i chi gael awdurdodiad gan y Swyddog Enwebu ar gyfer pob un o'r pleidiau cofrestredig (neu bobl sydd ag awdurdod i weithredu ar eu rhan).

  Dylid cymryd gofal wrth gwblhau'r maes disgrifiadau ar y ffurflen enwebu. Mae'n rhaid i enw'r blaid/disgrifiad a ddefnyddir ar y papur enwebu fod yn union yr un peth ag enw'r blaid/disgrifiad a ddewisir ar gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn <https://pefonline.electoralcommission.org.uk/search/searchintro.aspx>. Os nad yw'n union yr un peth, bydd y papur enwebu cyfan yn cael ei wrthod.

  Nodwch nad oes yn rhaid i chi gael disgrifiad. Gallwch benderfynu peidio â chael disgrifiad, drwy adael y maes disgrifiad o'r ffurflen yn wag. Fodd bynnag, gall y blaid yr

Mae enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig i'w cael ar ein cofrestr ar-lein.

Mae fersiynau Cymraeg o enwau pleidiau wedi'u rhestri ar y wefan o dan 'enw arall' ac mae fersiynau Cymraeg o ddisgrifiadau wedi'u rhestri i'r dde o'r disgrifiad o dan 'cyfieithiad(au)'.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fydd 4pm ar ddiwrnod a bennit gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Yn gyfreithiol ni fydd hyn yn gynt na'r trydydd diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cyhoeddu'r hysbysiad o etholiad, a heb fod yn hwyrach na'r seithfed diwrnod ar ôl y dyddiad y derbynnir y gwrit.

Os ydych am sefyll fel ymgeisydd annibynnol, gweler Rhan 2a - Sefyll fel ymgeisydd annibynnol i gael mwy o wybodaeth.

ydych yn sefyll ar ei rhan ofyn eich bod yn defnyddio disgrifiad penodol.

Ffurflen cyfeiriad cartref

1.11 Mae'n rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref nodi eich cyfeiriad cartref yn llawn. Os nad ydych am i'ch cyfeiriad fod yn gyhoeddus ac ymddangos ar y papur pleidleisio, mae'n rhaid i chi wneud datganiad yn nodi hyn ar y ffurflen cyfeiriad cartref a rhoi enw'r etholaeth lle mae'ch cyfeiriad cartref neu, os ydych yn byw tu allan i'r DU, enw'r wlad yr ydych yn preswylio ynddi.

1.12 Eich cyfeiriad cartref yn llawn:

- rhaid ei gwblhau'n llawn
- rhaid iddo beidio â chynnwys talfyriadau
- rhaid iddo fod eich cyfeiriad cartref presennol
- rhaid iddo beidio â bod yn gyfeiriad busnes (heblaw eich bod yn rhedeg busnes o'ch cartref)

1.13 Nid oes angen i'ch cyfeiriad fod yn yr etholaeth yr ydych yn bwriadu sefyll ynddi.

Cydsynio i enwebu

1.14 Rhaid i chi hefyd gydsynio yn swyddogol i'ch enwebiad yn ysgrifenedig. Mae cynnwys y ffurflen cydsyniad i enwebu wedi'i bennu gan y gyfraith. Ar y ffurflen gofynnir i chi nodi eich bod yn gymwys a heb eich gwahardd rhag sefyll. Mae'n rhaid i chi hefyd nodi eich dyddiad geni.

1.15 Ni chewch lofnodi'r ffurflen ganiatâd yn gynt nag un mis calendr cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich papurau enwebu. Mae'n rhaid cael tyst i'ch llofnod, ac mae'n rhaid i'r tyst lofnodi'r ffurflen a rhoi eu henw llawn a'u cyfeiriad. Does dim cyfyngiadau ar bwy all fod yn dyst i'r cydsyniad i enwebiad.

Tystysgrif awdurdodiad

1.16 Mae pleidiau gwleidyddol yn awdurdodi ymgeiswyr i sefyll drostynt drwy roi tystysgrif awdurdodiad. Mae'n rhaid iddo nodi y gall yr ymgeisydd a enwir sefyll ar eu rhan a'u caniatáu i ddefnyddio' un o'r canlynol:

- union enw'r blaid fel y mae wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn
- un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid
- eich dewis o un ai enw cofrestredig y blaid neu un o'r disgrifiadau cofrestredig.

1.17 Dylai'r Swyddog Enwebu (neu rywun sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar eu rhan) gymryd gofal wrth gwblhau'r dystysgrif awdurdodiad. Os yw'r dystysgrif yn awdurdodi enw plaid/disgrifiad penodol ac nad yw hyn yn cydweddu ag enw'r blaid/disgrifiad ar y papur enwebu, bydd yr holl enwebiad yn annilys.

1.18 Mae'n rhaid i Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid wleidyddol neu rywun a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i weithredu ar ei ran lofnodi'r dystysgrif awdurdodi.

1.19 Os ydych yn sefyll ar ran dau neu fwy o bleidiau, bydd angen i chi gael tystysgir awdurdodi gan y Swyddog Enwebu ar gyfer y ddwy blaid gofrestredig (neu rhywun ag awdurdod i weithredu ar eu rhan). Caiff disgrifiadau ar y cyd eu rhestru ar gofrestr pleidiau gwleidyddol y Comisiwn ar dudalen cofrestried pob un o'r pleidiau perthnasol.

Cais i ddefnyddio arwyddlun ar y papur pleidleisio

1.20 Os ydych wedi'ch awdurdodi gan blaid wleidyddol i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio, gallwch hefyd wneud cais bod un o arwyddluniau swyddogol y blaid yn cael ei hargraffu ar y papur pleidleisio wrth ymyl eich enw.

Gellir gweld neu lawrlwytho arwyddluniau o'n cofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol.

1.21 Mae'n rhaid i chi wneud cais am arwyddlun yn ysgrifenedig a'i ddanfon i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Mae'n rhaid i'r cais gael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fel nodir ar yr hysbysiad o etholaid. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn darparu ffurflen y gallwch ddefnyddio i wneud y cais hwn, neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen cais am arwyddlun a gynhyrchir gan y Comisiwn.

1.22 Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol a disgrifiad yr arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y rhestrir ar gofrestr ar-lein pleidiau gwleidyddol y Comisiwn. Ni ellir addasu arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw fodd.

1.23 Gall ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran dwy neu fwy o bleidiau cofrestredig ac sy'n defnyddio disgrifiad ar y cyd defnyddio arwyddlun sydd wedi'i gofrestru gan un o'r pleidiau perthnasol. Mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i ddanfon i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fel nodir ar yr hysbysiad o etholiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn darparu ffurflen y gallwch ddefnyddio i wneud y cais hwn, neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen cais am arwyddlun a gynhyrchir gan y Comisiwn. Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol sydd wedi cofrestru'r arwyddlun a disgrifiad yr arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y rhestrir ar gofrestr ar-lein pleidiau gwleidyddol y Comisiwn.

Bydd yr hysbysiad o etholiad yn cael ei gyhoeddi erbyn 4pm ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl i'r gwriat gael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Cyflwyno eich papurau enwebu

1.24 Mae'n rhaid i'r holl bapurau enwebu, gan gynnwys y ffurflen cyfeiriad cartref, cydsyniad i enwebu, tystysgrif awdurodi a'r ffurflen cais am arwyddlun gael eu danfon i'r man a nodir ar yr hysbysiad o etholiad erbyn 4pm ar y diwrnod a nodir ar yr hysbysiad o etholiad. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich papurau enwebu yn cael eu danfon yn y modd cywir ac erbyn y dyddiadau cau.

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fydd 4pm ar ddiwrnod a bennit gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Yn gyfreithiol ni fydd hyn yn gynt na'r trydydd diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cyhoeddu'r hysbysiad o etholiad, a heb fod yn hwyrach na'r seithfed diwrnod ar ôl y dyddiad y derbynnir y gwrit.

Pwy all ddanfon y papurau enwebu?

1.25 Dim ond nifer cyfyngedig o bobl all ddanfon eich ffurflen enwebu a'ch ffurflen cyfeiriad cartref. Dim ond chi, eich cynigydd neu eiliwr, neu eich asiant etholiadol (os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wedi derbyn hysbysiad blaenorol o'u penodiad) all ddanfon eich ffurflen enwebu a'ch ffurflen cyfeiriad cartref.

1.26 Does dim cyfyngiadau o ran pwy all ddanfon eich cydsyniad i enwebu, tystysgrif awdurdodi a ffurflen cais am arwyddlun ond dylech sicrhau eich bod chi, eich asiant, eich cynigydd neu'ch eiliwr, neu rywun yr ydych yn ymddiried

ynddynt yn gwneud hyn, fel y gallwch fod yn siŵr eu bod yn cael eu danfon at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn pryd.

Sut dylid cyflwyno'r papurau enwebu?

1.27 Mae'n rhaid danfon y ffurflen enwebu, cyfeiriad cartref a'r ffurflen cydsynio i enwebu â llaw ac ni ellir eu cyflwyno drwy'r post, ffacs, e-bost nac unrhyw fodd electronig arall. Yr unig eithriad yw pan fod ymgeisydd tramor, ac yn yr achos hwnnw gellid anfon eu cydsyniad i'w henwebu yn electronig.

1.28 Gellid cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi a'r cais am arwyddlun drwy'r post ond ni ellir ei gyflwyno drwy ffacs, e-bost nac unrhyw fodd electronig arall.

1.29 Mae'n rhaid cyflwyno **fersiwn gwreiddiol** pob papur wedi'i gwblhau. Byddai tystysgrif awdurdodi wedi'i anfon fel atodiad i e-bost er mwyn ei argraffu, er enghraifft, yn ei wneud yn ddogfen gopi, ac nid yn ddogfen wreiddiol.

Pryd dylid cyflwyno'r papurau enwebu?

1.30 Dylech gyflwyno eich papurau enwebu cyn gynted â phosibl i roi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i wneud gwiriad anffurfiol ac i roi amser i gyflwyno papurau enwebu newydd pe bai camgymeriadau yn eich set gyntaf.

1.31 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cadarnhau'r union fanylion o pryd a ble y gellir danfon y papurau enwebu ar yr hysbysiad swyddogol o etholiad. Bydd yr hysbysiad o etholiad yn cael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 4pm ar yr ail ddiwrnod ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn y gwrit. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yr hysbysiad o etholiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan awdurdod lleol y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

1.32 Gallwch gyflwyno papurau enwebu rhwng 10am a 4pm o'r diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad hyd nes y dyddiad cau ar gyfer enewbiadau. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fydd 4pm ar ddiwrnod a nodir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac a nodir yn yr hysbysiad o etholiad. Yn gyfreithiol ni fydd hyn yn gynt na'r trydydd diwrnod gwairh ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad a heb fod yn

hwyrach na'r seithfed diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y derbynir y gwrit.

1.33 Dylech gysylltu â'ch Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn gynted â phosibl i weld pa drefniadau sydd yn eu lle ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

1.34 Os ar ôl i chi gyflwyno'ch papurau enwebu eich bod yn newid eich meddwl a ddim bellach am sefyll yn yr etholiad, gallwch dynnu'ch enw yn ôl, cyn belled â'ch bod yn gwneud erbyn 4pm ar y diwrod olaf ar gyfer enwebiadau fel a nodir ar yr hysbysiad o etholiad. I gael rhagor o fanylion ar dynnu yn ôl, gweler paragraff **1.50.**

Yr ernes

1.35 I enwebiad ymgeisydd fod yn ddilys, mae'n rhaid ernesau £500 gyda'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, fel nodir yn yr hysbysiad o etholiad. Gellir gwneud yr ernes gan ddefnyddio:

- arian parod (arian Prydeinig yn unig)
- drafft banc y DU

1.36 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) hefyd dderbyn ernes a wneir gan siec cymdeithas adeiladu, cerdyn credyd neu ddebyd neu drosglwyddiad electronig. Fodd bynnag, gallant hefyd wrthod gwneud. Os ydych yn ystyried talu'r ernes yn un o'r ffyrdd hyn, dylech drafod gyda'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) cyn gynted â phosibl p'un a bod y dull o dalu yn dderbyniol.

1.37 Os yw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn caniatáu i'r ernes gael ei dalu drwy gerdyn credyd neu ddebyd, efallai bydd y banc neu'r cwmni cerdyn credyd yn codi ffi am y trafodyn, ac felly bydd angen i chi dalu unrhyw ffioedd ychwanegol yn ogystal â'r ernes o £500.

1.38 Bydd ymgeiswyr sy'n cael mwy na 5% o'r cyfanswm o bleidleisiau dilys yn yr etholaeth yn cael eu hernes yn ôl. Bydd ymgeiswyr sy'n cael 5% neu'n llai o'r cyfanswm o bleidleisiau dilys yn yr etholaeth yn colli eu hernes.

Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill

1.39 Dim ond rhai pobl sydd â hawl mynychu danfon y papurau enwebu ac archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref. Ar ôl i'ch papurau enwebu a'ch ernes gael eu danfon a bod wedi'ch enwebu'n ddilys, gall y canlynol archwilio a gwrthwynebu ffurflen enwebu a ffurflen cyfeiriad cartref:

- chi
- eich asiant etholiadol
- eich cynigydd neu eiliwr

1.40 Ni all unrhyw un arall archwilio papurau enwebu ar unrhyw adeg.

1.41 Gall cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un person arall a ddewisir gan ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys hefyd fod yn bresennol pan ddanfonir papurau enwebu, ond ni chânt archwilio na gwneud unrhyw wrthwynebiadau i'r ffurflenni enwebu.

1.42 Ni all unrhyw berson arall, heblaw'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'u staff fynychu danfon y papurau enwebu.

Os mai chi yw'ch asiant etholiadol eich hun, gallwch benodi un person arall i fynd i ddanfon y papruau enwebu a gwneud gwrthwynebiadau.

Os ydych wedi cyflwyno mwy nag un ffurflen enwebu, dim ond y cynigydd a'r eiliwr o'r ffurflen enwebu yr ydych wedi'u dewis fydd a hawl mynychu. Os nad oes dim wedi'u dewis, cynigydd ac eiliwr y ffurflen enwebu gyntaf a gyflwynwyd fydd â'r hawl hwnnw.

Gwrthwynebu enwebiadau

1.43 Gellir gwneud gwrthwynebiadau i ddilysrwydd unrhyw ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref yn y mwyafrif o amgylchiadau gael eu gwneud ar y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu a nodir ar yr hysbysiad o etholiad.

1.44 Mae'r terfyn amser i wneud gwrthwynebiad yn dibynnu ar bryd danfonir y ffurflen enwebu.

O dan un amgylchiad arbenni, lle ma'er gwrthwynebiad ar sail bod ymgeisydd wedi'i wahardd ar sail ei fod ganddo ddedfryd o garchar o flwyddyn neu dwy, gellir gwneud gwrthwynebiadau 18 diwrnod gwaith cyn y bleidlais

Amserlen gwrthwynebiadau

Enwebiadau a ddanfonwyd hyd at 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu

1.45 Mae'n rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu neu ffurflen cyfeiriad cartref a ddanfonwyd hyd at a chan gynnwys 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu, gael eu gwneud **rhwng 10am a 12 canol dydd** ar y diwrnod olaf ar gyfer danfon papurau enwebu**.**

Enwebiadau a ddanfonwyd ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu

1.46 Mae'n rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu neu restr o ymgeiswyr a ddanfonwyd ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu gael eu gwneud **rhwng 10am a 5pm** ar y diwrnod olaf ar gyfer danfon enwebiadau**.** Mae'n rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiadau ar neu'n syth wedi amser danfon yr enwebiad.

Gwrthwynebiadau ar sail bod ymgeisydd unigol wedi'i garcharu am flwyddyn neu fwy

1.47 Yn yr achos prin bod Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ystyried y gallai ymgeisydd fod wedi'i wahardd gan ei fod mewn carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, byddant yn cyhoeddi hysbysiad yn gwahodd gwrthwynebiadau ar y sail hynny. Gellir gwneud gwrthwynebiadau o'r fath **rhwng 10am a 4pm** ar y diwrnod gwaith nesaf ar ôl y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu.

Penderfyniadau ar wrthwynebiadau

1.48 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wnaed, ond mae ganddo hawl i ddal bod enwebiad yn annilys o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- bod manylion yr ymgeisydd neu'r tanysgrifwyr ddim beth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith
- bod y papur heb ei danysgrifio fel sy'n ofynnol
- bod yr ymgeisydd wedi'i wahardd ar sail ei fod wedi'i garcharu gyda dedfryd o flwyddyn neu fwy

Os ydych tu allan i'r DU gall eich cynigydd dynnu yn ôl ar eich rhan cyn belled a bod hyn yn cyd-fynd â datganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan eich cynigydd yn cadarnhau eich absenoldeb.

Os ydych tu allan i'r DU ac yn sefyll wedi'ch enwebu gan fwy nag un ffurflen enwebu, dylech siarad â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) os ydych am dynnu yn

1.49 Mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bod enwebiad yn ddilys yn derfynol ac ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad. Dim ond ar ôl etholiad y gellir herio'r penderfyniad trwy ddeiseb etholiadol (gweler Rhan 6 - Ar ôl datgan y canlyniad) i gael mwy o wybodaeth am ddeisebau etholiadol).

Tynnu yn ôl

1.50 Gallwch dynnu yn ôl fel ymgeisydd drwy lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu yn ôl sy'n rhaid cael un person arall fel tyst iddo. Does dim cyfyngiadau ar bwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond mae'n rhaid ei ddanfon yn bersonol. Mae'n rhaid i'ch tyst hefyd lofnodi'r hysbysiad. Gellir cael hysbysiad tynnu yn ôl gan eich Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan.

1.51 Mae'n rhaid cyflwyno'r hysbysiad tynnu yn ôl erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu yn ôl h.y. erbyn y dyddiad cau ar gyfer danfon ppaurau enwebu fel nodir ar yr hysbysiad o etholiad. Ar ôl y dyddiad cau tynnu yn ôl nid yw'n bosib tynnu yn ôl o'r etholiad, a bydd eich enw yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Os yw'r etholiad yn ddiwrthwynebiad, byddwch yn datgan wedi'ch ethol.

1.52 Os ydych yn tynnu yn ôl fel ymgeisydd, bydd eich ernes yn cael ei ddychwelyd i chi.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r enwebiadau gau?

1.53 Cyn belled nad oes unrhyw wrthwynebiadau, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi datganiad o bersonau a enwebwyd erbyn 5pm ar y diwrnod olaf ar gyfer danfon enwebiadau fel nodir ar yr hysbysiad o etholiad. Bydd y datganiad yn cynnwys:

- enwau llawn neu a ddefnyddir yn gyffredin, yn ôl yr achos, o'r holl ymgeiswyr a enwebwyd yn ddilys
- enwau ymgeiswyr nad ydynt bellach sy'n sefyll wedi'u henwebu, os oes rhai (h.y. enwebiadau annilys ac

ymgeiswyr wedi'u tynnu yn ôl), gyda'r rheswm pam nad ydynt bellach yn sefyll
- cyfeiriad cartref pob ymgeisydd, neu os ydych wedi gwneud cais i beidio â gwneud eu cyfeiriad cartref yn gyhoeddus, yr etholaeth y mae eu cyfeiriad cartref ynddo (neu'r wlad os yw eu cyfeiriad tu allan i'r DU)
- disgrifiad pob ymgeisydd (os oes rhai)

1.54 Os oes unrhyw wrthwynebiadau, bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cyhoeddi datganiad o bersonau a enwebwyd erbyn 4pm ar y diwrnod ar ôl y dyddiad cau ar gyfer danfon papurau enwebu.

Penodi eich asiantiaid etholiadol ac asiantiaid eraill

1.55 Yr asiant etholiadol yw'r person sy'n gyfrifol am reoli eich ymgyrch etholiadol yn iawn ac, yn benodol, am reolaeth ariannol. Mae'n rhaid i chi gael asiant etholiadol. Os nad ydych yn penodi asiant, byddwch yn dod yn asiant i'ch hun yn ddiofyn.

1.56 Wedi iddynt gael eu penodi, dim ond yr asiant etholiadol all wneud taliadau am dreuliau etholiadol.

1.57 Gallwch hefyd benodi asiantiaid eraill i arsylwi'r prosesau etholiadol canlynol, y mae gennych chi a'ch asiant etholiadol hawl hefyd eu harsylwi:

- agor pleidleisiau post
- y bleidlais
- y cyfrif

Pwy all fod yn asiant etholiadol?

1.58 Does dim cymwysterau penodol eu hangen i fod yn asiant etholiadol, a gallwch fod yn asiant i chi'ch hun os dymunwch.

1.59 Fodd bynnag, ni all y bobl ganlynol fod yn asiantiaid etholiadol yn ôl y gyfraith:

- y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu aelod o'u staff
- partner neu glerc y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) neu aelod o'u staff
- unrhyw sydd heb hawl i bleidleisio yn yr etholiad o ganlyniad i adroddiad llys etholiadol neu gollfarn am arfer llwgr neu anghyfreithlon yn unol â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

1.60 Gall eich plaid hefyd gael rheolau penodol o ran pwy allwch benodi fel asiant etholiadol.

Penodi asiant etholiadol

Mae'n ddefnyddiol hefyd darparu rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer eich asiant etholiadol fel bod y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gallu cysylltu â nhw'n hawdd.

1.61 Oherwydd cyfrifoldebau rôl asiant etholiadol, dylech ystyried yn ddwys pwy ydych am eu penodi a sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau. Gallwch fod yn asiant eich hun os dymunwch.

1.62 Mae'n rhaid i chi ddatgan, yn ysgrifenedig, enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa eich asiant etholiadol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau fel nodir ar yr hysbysiad o etholiad. Dylech chi a'r asiant lofnodi'r datganiad i ddangos eu bod yn derbyn y penodiad.

1.63 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu ffurflen ddatganiad, neu gallech ddefnyddio'r ffurflen datgan asiant etholiadol a ddarperir gan y Comisiwn. Os nad ydych yn penodi rhywun arall fel eich asiant erbyn y dyddiad cau, byddwch yn dod yn asiant i'ch hun yn awtomatig.

1.64 Mae'n rhaid i gyfeiriad swyddfa eich asiant fod:

- o fewn yr etholaeth seneddol lle'r ydych yn sefyll, neu
- o fewn yr etholaeth seneddol sy'n ffinio â'r etholaeth lle'r ydych yn sefyll, neu
- yng Nghymru, o fewn sir Gymreig neu fwrdeistref sirol sy'n rhan o'r neu'n ffinio'r etholaeth, neu
- yn Llundain, o fewn bwrdeistref Llundain sy'n rhan o'r neu'n ffinio'r etholaeth

1.65 Yn aml cyfeiriad swyddfa'r asiant fydd eu cyfeiriad cartref, ond gall fod yn swyddfa leol y blaid neu swyddfa sydd wedi'i hagor ar gyfer yr etholiad.

1.66 Mae'n rhaid i'r cyfeiriad swyddfa a ddatgenir i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ac mae'n rhaid iddo fod yn gyfeiriad y gellir danfon hysbysiadau cyfreithiol ac felly mae'n rhaid iddo fod yn gyfeiriad corfforol - ni ellir defnyddio blychau SP na blychau post tebyg.

1.67 Os ydych yn asiant etholiadol eich hun, y cyfeiriad swyddfa yw'r cyfeiriad y darparoch ar eich ffurflen cyfeiriad cartref. Os yw'r cyfeiriad hwnnw tu allan i'r ardal a ganiateir, tybir mai cyfeiriad cymwys eich cynigydd (h.y. y tanysgrifiwr cyntaf ar eich ffurflen enwebu) yw'r cyfeiriad swyddfa.

Dirymu penodiad asiant etholiadol

1.68 Gallwch ddirymu penodiad eich asiant etholiadol ar unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl y diwrnod pleidleisio, ac mae'n rhaid gwneud y penodiad yn yr un modd ag yr amlinellir uchod. Os di-rymwch benodiad eich asiant etholiadol, ac nad ydych yn penodi rhywun arall, tybir mai chi yw'ch asiant etholiadol eich hun.

1.69 Os mai chi yw'ch asiant etholiadol eich hun gallwch ddirymu eich penodiad eich hun a phenodi rhywun arall fel eich asiant.

1.70 Unwaith i asiant lofnodi eu derbyniad ni allant ymddiswyddo ac mae'n rhaid iddynt gyflawni'r dyletswyddau y disgwylir ohonynt heblaw i chi ddirymu eu penodiad.

Is-asiantiaid

1.71 Gall asiant etholiadol mewn etholaeth sirol benodi is-asiantiaid i weithredu ar eu rhan. Ni ellir penodi is-asiantiaid mewn etholaeth bwrdeistref.

1.72 Gall asiantiaid etholiadol benodi is-asiantiaid ar gyfer rhannau penodol o'r etholaeth, cyn belled nad yw'r rhannau hynny'n gorgyffwrdd. Gall yr asiant benderfynu ar y rhannau y maent am rannu'r etholaeth iddynt.

Mae dau fath o etholaeth: bwrdeistref a sir.

Fel arfer mae etholaethau bwrdeistref yn drefol ac etholaethau sirol yn bennaf yn wledig.

Os nad ydych yn gwybod pa fath o etholaeth yr ydych yn sefyll ynddi, mae'r wybdoaeth hon ar gael gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

1.73 Mae'n rhaid i swyddfa'r is-asiant fod yn yr ardal y maent wedi'u penodi i weithredu ynddo.

1.74 Gall is-asiant wneud unrhyw beth y mae hawl gan yr asiant etholiadol wneud yn yr ardal y maent wedi'u penodi.

1.75 Dylai'r asiant etholiadol sicrhau bod pwy bynnag y maent yn penderfynu penodi fel is-asiant yn ymwybodol o'r rheolau etholiadol a gwariant. Bydd unrhyw beth y mae'r is-asiant yn ei wneud yn cael ei drin fel pe bai wedi'i wneud gan yr asiant etholiadol.

1.76 Erbyn yr ail ddiwrnod gwaith cyn y bleidlais mae'n rhaid i'r asiant etholiadol ddatgan enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa bob is-asiant a'r ardal y maent wedi'u penodi iddi i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ysgrifenedig. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn darparu ffurflen i chi ei defnyddio. Neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen a gynhwysir at y diben hwn ym mhecyn enwebu'r Comisiwn.

1.77 Gall yr asiant etholiadol ddirymu penodiad unrhyw is-asiant ar unrhyw bryd a gellir penodi is-asiant arall yn eu lle. Os penodir unrhyw is-asiant yn eu lle, rhaid i'r asiant etholiadol ddatgan enw, cyfeiriad a chyfeiriad swyddfa ac ardal penodi'r is-asiant newydd yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol).

Penodi asiantiaid pleidleisio post, pleidleisio a'r cyfrif

1.78 Gallwch chi neu'ch asiant etholiadpol benodi pobl eraill fel asiantiaid i fynd i'r digwyddiad agor pleidleisiau post, y bleidlais a'r gwirio a'r cyfrif.

1.79 Gall unrhyw un, heblaw'r rheiny a restrir ym mharagraff **1.58**, gael eu penodi fel asiant pleidleisio post, pleidleisio neu'r cyfrif. Gallwch chi a'ch asiant etholiadol fod yn un o'r asiantiaid hynny heb fod angen penodiad swyddogol.

1.80 Gallwch benodi unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio gael eu penodi i fynd i bob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw bryd. Gall asiant pleidleisio gael ei benodi i fynd i nifer o orsafoedd pleidleisio.

1.81 Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn dweud wrthych y mwyafrif o asiantiaid pleidleisio post a chyfrif y gallwch eu penodi. Bydd pob ymgeisydd yn cael penodi yn union yr un nifer. Yn y cyfrif, heblaw bod amgylchiadau arbennig, ni fydd y nifer o asiantiaid cyfrif a ganiateir ar gyfer pob ymgeisydd yn llai na'r nifer a geir drwy rannu'r nifer o gynorthwywyr y cyfrif (h.y. y staff a gyflogir i gyfrif) gan y nifer o ymgeiswyr.

1.82 Mae'n rhaid gwneud y cais i benodi'r asiantiaid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Mae'n rhaid i bob hysbysiad gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodwyd. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn darparu'r ffurflenni perthnasol ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i'r ffurflenni i roi hysbysiad o benodiad asiantiaid pleidleisio post, pleidleisio a chyfrif ar ein gwefan.

1.83 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses maent yn mynd iddi. Mae'n rhaid penodi asiantiaid pleidleisio a'r cyfrif heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn y bleidlais. Fodd bynnag, dim ond erbyn yr amser a benodir ar gyfer agor pleidleisiau post y maent am fynd iddo y mae angen i'r ffurflenni penodi asiantiaid pleidleisio post gael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd cyn cychwyn arfaethedig pob sesiwn agor pleidleisiau post.

1.84 Os yw asiant yn marw neu ddim yn gallu gweithredu, gallwch benodi asiant arall yn eu lle drwy gyflwyno'r ffurflen benodi berthnasol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Mae'n rhaid hysbysu am y penodiadau o dan yr amgylchiadau hyn heb oedi.

1.85 Mae mwy o wybodaeth ar beth gall asiantiaid wneud a beth na allant wneud a beth allant ddisgwyl gweld mewn sesiynau agor pleidleisio post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif, i gyd yn Rhan 5 - Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddo

Ymgeisydd yn marw

1.86 Os oes ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler paragraff **1.102** i gael mwy o wybodaeth ar sut bydd hyn yn effeithio ar yr etholiad.

Gwybodaeth atodol

Enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin

1.87 Os ydych yn defnyddio enw gwahanol i'ch enw go iawn, gallwch ofyn i'ch enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin i gael ei ddefnyddio yn hytrach na'ch enw go-iawn. Er enghraifft, efallai fod pobl yn eich adnabod fel 'Andy', yn hytrach na'ch enw cyntaf llawn sef 'Andrew'. Yn yr achos hwnnw, gallwch ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf a ddefnyddir yn gyffredin ar y papur enwebu, os byddai'n well gyda chi i'r enw yna ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.88 Fodd bynnag ni allwch ddefnyddio'ch enw cyntaf fel enw a ddefnyddir yn gyffredin fel mai dim ond eich enw cyntaf a'ch cyfenw sy'n ymddangos ar y papur pleidleisio, ac felly'n eithrio eich enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn glir mai enw a ddefnyddir yn gyffredin yw un sy'n wahanol o unrhyw enw ragenw neu gyfenw arall. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio rhagenw yn ei ffurf wreiddiol fel enw a ddefnyddir yn gyffredin. Os ydych am ddefnyddio rhagenw a/neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin, yna mae'n rhaid i'r rhain fod yn wahanol i'ch enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith na John Smith fel ei enw a ddefnyddir yn gyffredin, er byddai'n gallu defnyddio Andy Smith (os caiff ei adnabod fel Andy yn gyffredin). Gallwch wneud cais I ddefnyddio rhagenw, cyfenw neu'r ddau, a ddefnyddir yn gyffredin.

1.89 Gallwch hefyd ddefnyddio'ch blaenlythrennau fen rhan o'ch enw a ddefnyddir yn gyffredin, os cewch eich adnabod ganddynt.

1.90 Byddai'r enw(au) a ddefnyddir yn gyffredin wedyn ymddangos ar:

- y datganiad o bersonau a enwebwyd a'r hysbysiad o bleidlais, a
- y papurau pleidleisio

1.91 Ni fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn caniatáu enwau a ddefnyddir yn gyffredin sy'n debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu sy'n anweddus neu'n sarhaus. Os na chaniateir yr enw(au), bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ysgrifennu atoch yn nodi'r rheswm dros wrthod. Yn yr achosion hynny, bydd eich enw go-iawn yn cael ei ddefnyddio yn lle.

1.92 Os gadewir y blwch enw cyntaf neu gyfenw a ddefnyddir yn gyffredin yn wag ar y papur enwebu, yna defnyddir eich enw cyntaf neu'ch cyfenw go-iawn, yn dibynnu pa flwch sydd wedi'i adael yn wag.

1.93 Mae'n drosedd rhoi datganiad ffug ar eich papur enwebu. Felly, os dewiswch ddarparu enw a ddefnyddir yn gyffredin, mae'n rhaid i chi sicrhau ei fod yn enw cyntaf neu'n gyfenw yr ydych yn ei ddefnyddio.

Llofnodion tanysgrifwyr

1.94 Mae angen llofnodi pob ffurflen enwebu (tanysgrifio) gan 10 etholwr ar y gofrestr o etholwyr seneddol yn yr etholaeth.

I ddarganfod sut i gael y gofrestr etholiadol gweler:

Rhan 4 - Yr ymgyrch

1.95 Bydd y ddau etholwr cyntaf yn llofnodi a phrintio eu henwau fel cynigydd ac eiliwr, a bydd yr wyth arall yn gydsynwyr.

1.96 Mae'n rhaid rhoi rhif etholwr pob tanysgrifiwr fel mae'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol, gan gynnwys y rhifau neu'r llythrennau nodedig y dosbarth pleidleisio ar y ffurflen enwebu. Fel arfer, mae'r rhifau/llythrennau nodedig ar gyfer y dosbarth pleidleisio i'w cael ar flaen y gofrestr. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol (Gweithredol) a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gallu eich cynghori ar sut y gosodir y gofrestr.

1.97 Bydd hawl gennych i gopi am ddim o'r gofrestr etholiadol unwaith i chi ddod yn ymgeisydd. Dylech ei ddefnyddio i sicrhau fod eich ffurflen enwebu wedi'i danysgrifio'n gywir. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cadw'r gofrestr etholiadol yn ddiogel ac unwaith i chi orffen ag ef, sicrhau ei fod yn cael ei ddinistrio'n ddiogel.

1.98 Dim ond un ffurflen enwebu all bob etholwr danysgrifio yn yr etholiad. Os yw etholwr yn llofnodi dau neu fwy o ffurflenni enwebu, bydd y ffurflen enwebu gyntaf a ddanfonir at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn cael ei dderbyn a bydd y gweddill yn annilys. Dylech felly ymholi, cyn gofyn i danysgrifiwr lofnodi eich ffurflen, os ydynt wedi llofnodi un rhywun arall eisoes.

1.99 Os yw enwebiad yn cynnwys llofnodion mwy na deg tanysgrifiwr, dim ond y deg cyntaf fydd yn cael eu derbyn. Os yw unrhyw un o'r deg tanysgrifiwr cyntaf yn annilys, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddal bod y ffurflen enwebu'n annilys, hyd yn oed os oes mwy na deg tanysgrifiwr.

1.100 Ni ddylid newid ffurflenni enwebu wedi iddynt gael eu tanysgrifio. Dylai'ch holl fanylion fod wedi'u cwblhau cyn i chi wahodd unrhyw un i danysgrifio i'ch enwebu. Unwaith i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dderbyn y ffurflen enwebu'n swyddogol, ni ellir tynnu llofnodion yn ôl.

1.101 Wrth gasglu gwybodaeth tanysgrifwyr, dylech nodi sut fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio, sut fydd data personol yn cael ei brosesi a'i gadw'n ddiogel. Y sail gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen yma yw ei bod hi'n hanfodol i gyflawni tasg a wneir sydd ym mudd y cyhoedd ac ymarfer awdurdod swyddogol fel nodwyd yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl a'r rheoliadau cysylltiedig. Dylech hefyd esbonio bydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Swyddog Canlyniadau. I gael mwy o wybodaeth ar ddiogelu data a phrosesu data, dylech gyfeirio at hysbysiad preifatrwydd y Swyddog Canlyniadau ar eu gwefan.

Efallai bydd rhai etholwyr ar y gofrestr sydd wedi cofrestru'n ddienw oherwydd perygl i'w diogelwch.

Ni all etholwyr sydd wedi'u cofrestru'n ddienw danysgrifio ffurflenni enwebu.

Dangosir etholwyr dienw ar y gofrestr gyda'u rhif pleidleisio a'r llythyren 'N' (yn hytrach na'u henw a'u cyfeiriad).

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Ymgeisydd yn marw

1.102 Mae effaith marwolaeth ymgeisydd cyn datgan y canlyniad yn dibynnu ar p'un a bod yr ymgeisydd marw yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig ai peidio.

Yr amser y mae'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn derbyn prawf farwolaeth ymgeisydd sy'n berthnasol, ac nid amser marw gwirioneddol.

Ymgeisydd annibynnol yn marw

1.103 Os yw ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol yn marw, mae'r etholiad yn parhau fel yr arfer. Os yw'r ymgeisydd marw yn derbyn y mwyaf o bleidleisiau, ni chant eu hethol a chaiff yr etholiad ei ail gynnal. Nid oes gofyn cael unrhyw enwebiadau newydd: bydd yr holl ymgeiswyr presennol yn parhau i gael eu henwebu ar gyfer yr etholiad newydd, ac mae cadw neu ddychwelyd yr ernes yn cael ei benderfynu gan ganlyniad yr etholiad a ail gynhelir. Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad a ail gynhelir, ond caiff ymgeiswyr dynnu yn ôl.

1.104 Os nad yw'r ymgeisydd annibynnol a fu farw yn derbyn y nifer mwyaf o bleidleisiau yn y bleidlais wreiddiol, mae'r ymgeisydd wnaeth yn cael ei ddatgan fel wedi'i ethol ac ni effeithir ar yr etholiad. Os yw'r ymgeisydd fu farw yn dod yn gydradd gyntaf gyda'r un nifer o bleidleisiau ag unrhyw ymgeisydd arall, datgenir bod yr ymgeisydd arall wedi'i ethol.

1.105 Os mai dim ond dau berson sy'n sefyll wedi'u henwebu a bod ymgeisydd annibynnol yn marw, mae'r etholiad yn cael ei drin fel un heb ei frwydro a datganir fod yr ymgeisydd wedi'i ethol.

1.106 Ymhob sefyllfa, bydd ernes yr ymgeisydd marw yn cael ei ddychwelyd.

Ymgeisydd plaid yn marw

1.107 Os yw'r Swyddog Canlyniadau yn derbyn prawf a'i fod yn fodlon, cyn datgan y canlyniad, bod ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol (neu fel ymgeisydd ar y cyd sy'n sefyll ar ran dwy neu fwy o bleidiau) yn marw, caiff yr etholiad ei stopio'n syth. Os yw'r bleidlais yn cael ei chynnal neu'r cyfrif, mae'r broses honno yn stopio. Bydd etholiad newydd.

1.108 Nid oes gofyn cael unrhyw enwebiadau newydd: bydd yr holl ymgeiswyr presennol yn parhau i gael eu henwebu ar gyfer yr etholiad newydd, ac mae cadw neu ddychwelyd yr ernes yn cael ei benderfynnu gan ganlyniad yr etholiad newydd. Ni chaniateir enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad newydd, heblaw y gellir enwebu ymgeisydd newydd i sefyll ar ran plaid (neu bleidiau) yr ymgeisydd fu farw. Gellir tynnu unrhyw ymgeiswyr presennol yn ôl erbyn y dyddiad tynnu yn ôl ar gyfer yr etholiad newydd. Mae'n rhaid i'r papurau enwebu ar gyfer yr ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid (neu bleidiau) yr ymgeisydd fu farw gael eu cyflwyno erbyn diwedd enwebiadau yn seiliedig ar yr amserlen newydd.

Etholiad newydd

1.109 Bydd yr amserlen ar gyfer unrhyw etholiad newydd yn cael ei baratoi fel petai'r gwrit wedi'i dderbyn saith diwrnod gwaith ar ôl i'r prawf o farwolaeth gael ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gosod diwrnod pleidleisio newydd ac yn rhoi manylion i chi o'r amserlen etholiadol newydd.